

Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 13 Tachwedd 2017 Ystafell Werdd Parc Llanion 2.00pm

Yn Bresennol:

Gwyneth Haywood Cadeirydd yr Awdurdod
Cyngh Mike James
Cyngh Mike Williams

Tegryn Jones, Prif Weithredwr, ar gyfer eitem 5
June Skilton, Rheolwr Personél fel Hwylusydd

1. Ymddiheuriadau
Dim un
2. Datgan Buddiannau
Dim un.
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2017
Cadarnhawyd y cofnodion yn rhai cywir.
4. Eithrio'r cyhoedd
Roedd y panel wedi eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

(Gadawodd y Cyngh Williams y cyfarfod adeg ystyried eitem 5)

5. Adolygu'r camau a gymerwyd yn erbyn y targedau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer y Prif Weithredwr yn 2017-18

Ystyriodd y panel adroddiad a baratowyd gan y Prif Weithredwr ar y camau ymlaen a gymerwyd hyd yn hyn o ran y targedau eleni, a thrafodwyd yr eitemau oedd wedi codi gydag ef.

Diolchodd y panel i'r Prif Weithredwr a'i longyfarch ar y camau ymlaen a gymerwyd mewn amgylchiadau heriol.

Penderfynwyd:

Bod y panel yn gwbl fodlon â pherfformiad y Prif Weithredwr, a chadarnhawyd y targedau i'w cyrraedd yn ystod gweddill y flwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45pm.

JS 15/11/17